



Fy
mywyd i
yw e

Yng Ngorffennaf ac Awst 2014 cynhaliodd Comisiynydd Plant Cymru Ddigwyddiadau Cymru Gyfan i rai oedd yn Gadael Gofal yng Ngholeg Iwerydd, Llanilltud Fawr, yn ne Cymru, ac yng Ngwersyll yr Urdd, Glan-llyn yn y gogledd. Roedd y digwyddiadau'n gyfle i bron 100 o bobl ifanc ddod at ei gilydd. Roedden nhw'n dod o bob rhan o Gymru ac mewn gofal maeth, gofal preswyl, neu wedi gadael gofal. Y nod oedd edrych ar y materion mae pobl ifanc yn eu hwynebu pan fyddan nhw'n dechrau cyllunio i adael gofal a byw'n annibynnol a nodi tystiolaeth o arfer da.

Ychydig amdanon ni...

Mae cyfres o gyfreithiau, gan gynnwys Deddf Safonau Gofal 2000 a Deddf Comisiynydd Plant Cymru 2001, sy'n esbonio rôl a chyfrifoldebau'r Comisiynydd.

Rydyn ni am weld Cymru'n wlad lle mae plant a phobl ifanc yn cael eu parchu, eu gwerthfawrogi, yn cael gwrandawriad, ac yn cael eu cefnogi i fyw bywydau diogel, hapus. Mae tîm o bobl yn gweithio gyda'r Comisiynydd – yn Abertawe a Bae Colwyn – i'w helpu i wneud y pethau yma:

cefnogi plant a phobl ifanc i ddysgu am hawliau plant

gwrando ar blant a phobl ifanc i ddysgu beth sy'n bwysig iddyn nhw

cynghori plant, pobl ifanc a'r rhai sy'n gofalu amdanynt nhw os byddan nhw'n teimlo eu bod nhw'n methu troi at neb arall gyda'u problemau

dylanwadu ar y llywodraeth a sefydliadau eraill sy'n dweud eu bod nhw'n mynd i wneud gwahaniaeth i fywydau plant, gan sicrhau eu bod nhw'n cadw eu haddewidion i blant a phobl ifanc

codi llais dros blant a phobl ifanc yn genedlaethol ar faterion pwysig – bod yn bencampwr plant Cymru.

Cefndir y digwyddiad

Cynhaliwyd y digwyddiad am y tro cyntaf yn 2012 mewn ymateb i gais gan bobl ifanc yn ystod trafodaethau oedd yn bwydo i mewn i adroddiad '[Ar Goll ar ôl Gofal](#)'. Roedd yr adroddiad hwnnw'n manylu ar brofiadau pobl ifanc oedd yn paratoi i adael gofal a'r pryderon oedd ganddyn nhw ynghylch ystod eang o faterion oedd yn effeithio ar eu hawliau a'u lles wrth iddyn nhw symud at fyw'n annibynnol. Amlygodd yr adroddiad enghreifftiau pwysig o arfer da o ran sut roedd gweithwyr proffesiynol, ymarferwyr a gwasanaethau lleol yn gweithio gyda phobl ifanc i'w helpu i bontio yn y cyd-destun yma; roedd hefyd yn nodi nifer o wendidau oedd yn gwneud y pontio yma'n anodd ac yn heriol i bobl ifanc.

Doedd pobl ifanc ddim bob amser yn ymwybodol o'r gwasanaethau oedd ar gael iddyn nhw, ac felly doedden nhw ddim bob amser yn eu defnyddio. Roedden nhw'n aneglur ynghylch rolau amrywiol y gwahanol weithwyr proffesiynol oedd yn dod i gysylltiad â nhw, er gwaethaf pwysigrwydd y perthnasoedd hynny iddyn nhw, ac roedden nhw'n teimlo bod y cynllunio ar gyfer eu symudiad at annibyniaeth yn aml yn annigonol ac yn cael ei ruthro. Teimlai pobl ifanc hefyd nad oedden nhw'n cael gwrandawriad digonol nac yn cael eu cynnwys yn ddigonol yn yr ymgynghori ar y penderfyniadau pwysig oedd yn cael eu gwneud am eu bywyd a'r pontio o ofal i annibyniaeth.

Gofynnodd y bobl ifanc y buon ni'n siarad â nhw i'r Comisiynydd drefnu digwyddiad fyddai'n dod â phobl ifanc mewn gofal a rhai oedd yn gadael gofal at ei gilydd i rannu gwybodaeth a phrofiadau, ac yn fwy pwysig i fwynhau profiad difyr, cadarnhaol.

De Cymru

Cliciwch y lluniau i wyllo'r ffilmiau



Gogledd Cymru



Gweithgareddau

Yn y ddau ddigwyddiad bu'r bobl ifanc yn cymryd rhan mewn gweithdai yn y bore, i rannu gwybodaeth am feysydd allweddol yn eu bywydau. Cafodd y gweithgareddau eu hwyluso gan staff o Swyddfa'r Comisiynydd Plant. Rhannwyd y bobl ifanc yn bum grŵp, a chawson nhw gyfle i dreulio amser ym mhob un o'r pum gweithdy, gan roi eu barn ar y pum thema yma:


- Gwasanaethau Cymdeithasol
- Tai
- Addysg
- Byw'n Annibynnol
- Fy Nghynllunyydd – Hawliau a Phethau dylech chi gael

Roedd yr holl weithdai wedi'u llunio i roi cyfle i bobl gymryd rhan ac ymgysylltu, er mwyn sicrhau bod y bobl ifanc yn cael cyfle nid i roi eu barn yn unig, ond hefyd i gael hwyl a chlywed beth oedd gan bobl ifanc eraill i'w ddweud.



Y gweithgaredd

Negeseuon allweddol gan y bobl ifanc



¹ <http://www.childcom.org.uk/uploads/publications/250.pdf>


Ydych chi'n teimlo bod gweithwyr yn gwrando arnoch?

YDW - 23 EFALLAI/DDIM YN SIWR - 18 NA - 12

Roedd cynghorwyr personol yn fuddiol, ond doedd gweithwyr cymdeithasol methu gwneud yr hyn oedd angen pob amser

Teimlo'n rhan o benderfyniadau

Dwi'n teimlo fod pobl yn gwrando a bod newidiadau positif yn digwydd os dwi'n gofyn



Does gan y gweithwyr ddim profiad o fod yn berson ifanc mewn gofal, mae'r rheolau'n rhy gymhleth

Dwi'n teimlo fel bod nhw ddim yn becho - dim ond swydd yw e!

Mae gweithwyr cymdeithasol yn aml yn absennol


Dwi ddim yn cael fy mlaenoriaethu

Awgrymiadau defnyddiol i weithwyr proffesiynol – wedi'u cynhyrchu gan y bobl ifanc

Y gweithgaredd

Ar ôl y gweithgaredd diwethaf, lle buon ni'n holi pobl ifanc am eu perthynas gyda gweithwyr proffesiynol, fe wnaethon ni gasglu rhestr o awgrymiadau i weithwyr proffesiynol, gan fod y bobl ifanc yn teimlo y byddai'r pethau yma'n meithrin perthnasoedd cryfach a mwy effeithiol.

Cliciwch y llun i wyllo'r ffilm



Tai: Ym mha fath o le rydych chi'n byw?

Mae nifer o opsiynau llety ddylai gael eu hystyried wrth gynllunio llwybr i berson ifanc adael gofal. Mae'r rhain yn cynnwys:

llety â chymorth, lle mae'r person sy'n gadael gofal yn byw gyda phobl ifanc eraill, ac yn cael cefnogaeth oedolyn i ddysgu a datblygu sgiliau byw'n annibynnol;

trosti lleoliadau maeth, lle mae'r person sy'n gadael gofal yn dal i fyw yn y lleoliad maeth, ond yn awr yn talu rhent;

rhentu'n breifat, gan landlordiaid cymeradwy neu gymdeithasau tai;

'foyers', sy'n darparu llety cysylltiedig ag addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth fel arfer;

fflatiau hyfforddi / fflatiau rhagflas;

gwely a brecwast;

llety mewn hostel.

(Bydd yr opsiynau'n dibynnu ar beth sydd ar gael yn lleol.)

Y broblem i lawer o awdurdodau lleol yw bod dim digon o stoc tai sy'n addas ar gyfer pobl ifanc sy'n symud ymlaen i fyw'n annibynnol – o leia nid o fath penodol.²

Y gweithgaredd


Defnyddiwyd map anferth o Gymru fel bod y bobl ifanc yn gallu nodi'r problemau tai yn eu hardaloedd lleol, ac yna yn eu tro weld yr amrywiaeth o faterion roedd pobl ifanc eraill yn eu hwynebu ar draws Cymru.

Negeseuon allweddol gan bobl ifanc

Bu llawer o'r bobl ifanc yn y digwyddiadau yn trafod anawsterau o ran cael gafael ar wybodaeth briodol i ddod o hyd i opsiynau tai a sut i reoli arian a budd-daliadau. Soniodd eraill am broblemau o ran diffyg opsiynau tai fforddiadwy. Yn aml, hosteli oedd un o'r unig opsiynau oedd ar gael iddyn nhw. Yn gyffredinol, cafwyd yr argraff bod pobl ifanc yn teimlo nad yw gwasanaethau cymorth tai yn deall anghenion plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal na'r rhai sy'n gadael gofal.



² <http://www.childcom.org.uk/uploads/publications/250.pdf>



Addysg

Mae'r blynyddoedd olaf yn yr ysgol a symud ymlaen i addysg bellach, hyfforddiant neu gyflogaeth yn ffactor allweddol ym mywyd pob person ifanc, ond mae'n arbennig o bwysig i bobl ifanc sy'n derbyn gofal³. Yn achos y bobl ifanc yma mae'n debygol y bydd eu profiad o symud o'u cartref i ofal wedi effeithio ar eu haddysg, fel y bydd yr amgylchiadau arweiniodd atyn nhw'n mynd i'r system ofal. Mae cefnogaeth a dealltwriaeth effeithiol, da yn yr ysgol yn hanfodol i'r grŵp yma o blant a phobl ifanc.

Y gweithgaredd

Dewisodd y bobl ifanc lun oedd yn cynrychioli eu profiad o addysg, ac esbonio pam gwnaethon nhw ei ddewis a beth roedd yn ei olygu iddyn nhw.

Negeseuon Allweddol

Mynegodd llawer o'r bobl ifanc eu pryderon ynghylch y diffyg gweithgareddau a llefydd oedd ar gael iddyn nhw 'dim ond i dreulio amser gyda'u ffrindiau'. Bu eraill yn trafod pryderon am y diffyg cyfleoedd gwaith oedd ar gael iddyn nhw. Nodwyd bod trafndiaeth yn rhwystro mynediad i gyfleoedd o'r fath.

Cliciwch y llun i wyllo'r ffilm



³ <http://www.childcom.org.uk/uploads/publications/250.pdf>

'Breuddwydion a Dyheadau': Byw'n Annibynnol


Mae pobl ifanc sy'n pontio o ofal i annibyniaeth yn cael eu cefnogi gan fframwaith polisi a deddfwriaeth cadarn sy'n cyflwyno amrywiaeth o hawliau a ddylai sicrhau bod pobl ifanc sy'n symud ymlaen i fyw'n annibynnol yn cael eu helpu i bontio'n llwyddiannus⁴. Serch hynny, mae profiadau plant a phobl ifanc yn awgrymu eu bod, mewn gwirionedd, yn wynebu anawsterau sylweddol wrth bontio fel hyn.

Y gweithgaredd

Bu'r bobl ifanc yn trafod eu syniadau mewn grŵp anffurfiol gyda'r gweithwyr, a chafodd eu syniadau eu darlunio ar bapur fflipsiart.

Negeseuon allweddol gan y bobl ifanc

O ran gadael gofal, teimlai llawer o'r bobl ifanc y buon ni'n siarad â nhw y gallai mwy gael ei wneud i'w paratoi nhw ar gyfer pontio i fyw'n annibynnol. Ar ôl colli'r gefnogaeth roedden nhw wedi arfer ei derbyn roedden nhw'n teimlo'n ynysig ac ar eu pennau eu hunain – fel bod y “rhwyd ddiogelwch” wedi mynd. Sonion nhw am fethu gwybod sut i reoli eu harian eu hunain a'u biliau, bod heb bobl i siarad â nhw, a gorfod delio â landlordiaid a allai geisio gymryd mantais o'r ffaith eu bod nhw'n fregus. Rhannodd pobl ifanc eraill eu pryderon am y diffyg tai fforddiadwy oedd ar gael iddyn nhw yn eu hawdurdod lleol, mae hyn wedi achosi problemau a heriau adeg gadael gofal. Doedd llawer o'r bobl ifanc ddim yn gwybod bod y gyfraith wedi newid mewn perthynas â'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, a fydd efallai'n galluogi pobl ifanc mewn gofal maeth i aros yn eu tai maeth tan eu bod nhw'n 21.



⁴ <http://www.childcom.org.uk/uploads/publications/250.pdf>

DYLAI GWEITHWYR
WRANDO'N WELL

CADW'R UN
GWEITHWYR
CYMDEITHASOL

MYNEGI
LLAIS



CYNLLUN
LLWYBRAU
DA

TEIMLO'N
WERTHFAWR

ADDYSG
DA

EIRIOLAETH

DYLAI GWEITHWYR
CYMDEITHASOL FOD
YN ONEST

AMGYLCHEDD
NEWYDD

MEWNBYNNAU



CLUDIANT



CYFATHREBU
DA

STRWYTHUR

CEFNOGAETH
CRYF

BREUDDWYDION

YMDDIRIED

CYMHELLIANT



FFOCYSU A
CHANOLBWYNTIO

CAEL RHYWUN
I'W EDMYGU

ATAL TORIADAU'R
LLYWODRAETH

DYLAI GWEITHWYR
GADW ADDEWIDION

GWYLIAU AR
FORDAITH



ANIFEILIAD
ANWES

PERCHEN
FFLAT

CAEL
PLANT

PERCHEN
FFÔN SYMUDOL

CYNLLUN LLETY
Â CHYMORTH

MYND AM DRO

PERCHEN
BUSNES



RHEDEG
BUSNES

MYND I'R
GAMPFA

ALLBYNNAU

BYWYD CYMDEITHASOL
DA, FFRINDIAU DA

HAPUSRWYDD

CYSYLLTIAD WÊ
DA!

DILLAD
NEIS



PYSGOTA

RHANNU Tŷ
NEU FFLAT

SWYDD SY'N
TALU'N DDA

RHYDDID A
CHEFNOGAETH

BOD YN AGOS I
FFRINDIAU A THEULU

ARIAN

PRIFYSGOL

Fy Nghynllunydd: Hawliau a Phethau dylen i gael

Ym mis Chwefror 2011 fe wnaethon ni lansio '[Fy Nghynllunydd](http://www.childcom.org.uk/uploads/publications/240.swf)'⁵ – adnodd oedd wedi'i greu gan bobl ifanc ar gyfer pobl ifanc oedd yn paratoi i adael gofal. Dyw pob person ifanc sy'n paratoi i symud ymlaen i fyw'n annibynnol ledled Cymru ddim yn derbyn yr un gefnogaeth a gwybodaeth am y pethau mae ganddyn nhw hawl i'w derbyn, a beth gallan nhw ei ddisgwyl wrth iddyn nhw nesáu at 16 oed. I helpu i nodi degfed pen-blwydd y sefydliad, fe benderfynon ni gynhyrchu rhywbeth ymarferol gyda phobl ifanc, ar gyfer pobl ifanc a fyddai'n eu galluogi i lunio rhestr wirio o'r gefnogaeth mae ganddyn nhw hawl i'w derbyn. Anfonwyd copïau o Fy Nghynllunydd at bob awdurdod lleol i'w dosbarthu i bob person ifanc mewn gofal ar eu pen-blwydd yn 15 oed.

Fe wnaethon ni ofyn i'r bobl ifanc yn y digwyddiadau beth oedd eu teimladau am Fy Nghynllunydd, wrth i ni ystyried diweddarau'r adnodd er mwyn sicrhau ei fod yn gyfredol, yn berthnasol ac yn fwy hygyrch.

Y gweithgaredd

Cafodd trafodaethau grŵp anffurfiol eu cynnal rhwng staff y Comisiynydd Plant a'r bobl ifanc.

Negeseuon allweddol gan y bobl ifanc

Doedd llawer o'r bobl ifanc ddim wedi clywed am y Comisiynydd Plant cyn dod i'r digwyddiad, a doedden nhw ddim yn gwybod beth alle fe wneud i'w cefnogi, na sut i gysylltu â'r swyddfa:

"Ddim yn gwybod beth yw'r comisiynydd plant, ddim yn gwybod sut i gysylltu."

"Dylai pawb sydd mewn gofal gael cyfle i gwrdd â'r Comisiynydd a gwybod am beth gallan nhw gysylltu â fe."

"Y tro cynta i nifer o weithwyr proffesiynol weld hyn, mae angen i swyddfa'r Comisiynydd Plant roi hwb blynyddol i hyn."



⁵ <http://www.childcom.org.uk/uploads/publications/240.swf>

'Bydd ap ffôn yn dda ond mae copïau caled dal yn ddefnyddiol.'

'Mae gweithwyr cymdeithasol yn trafod Fy Nghynllunydd i ddechrau, ond ar ôl hyn dydyn nhw ddim yn sicrhau bod hi'n cael ei defnyddio.'

'Bydd fersiynau arlein, ebost, ap a PDF yn dda.'

'Dylai pobl ifanc dderbyn Fy Nghynllunydd pan mae nhw'n troi'n 15.'

'Roedd hi'n fuddiol, ond doedd dim esboniad o beth mae bod mewn gofal yn golygu o safbwynt cyfreithiol.'

'Rhoi e ar y ddogfen Adolygiad LAC i gael ei lledaenu a'i asesu.'



'Dylai gweithwyr cymdeithasol fynd trwy'r cynllunydd gyda pobl ifanc. Dylai'r Swyddog Adolygu Annibynnol sicrhau fod gennym ni gopi.'

'Rhowch hi yn y cynllun llwybrau, ry'n ni angen gwybodaeth cyson.'

'Defnyddiol. Perthnasol. Mae'n esbonio'n dda.'



'Bydd ap yn well.'

'Ry'n ni eisiau rhestr o rifau defnyddiol, yn enwedig rheolwyr y gweithwyr cymdeithasol.'

'Dylai aelodau seneddol gael gwybodaeth am gwynion.'

'Copi caled, arlein, ac ap. Bydd adran o wybodaeth lleol yn ddefnyddiol.'

'Mae angen adnodd arlein ar gyfer awdurdodau lleol i lanlwytho gwybodaeth lleol.'



'Mae angen llyfr ac ap.'

'Rhy hir. Angen paragraffau llai, mwy o luniau a mwy o wybodaeth cyfreithiol.'

'Mae ap yn syniad da. Mae gan y mwyafrif o bobl ifanc smartphone. Mae'n dda i gael llyfr hefyd.'

Beth fydd yn digwydd nesa? Gan Keith Towler, Comisiynydd Plant Cymru

Dylanwadu

Mae barn a phrofiadau'r bobl ifanc sydd wedi'u nodi yn yr adroddiad hwn yn amhrisiadwy er mwyn llywio ein hymatebion i'r ymgynghori sydd ar ddod ar y codau ymarfer o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), lle byddwn ni'n sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed.

Er mwyn gwirio cynnydd yr awgrymiadau gwella gwasanaeth roedden ni eisoes wedi'u gwneud, fe wnaethon ni gynnal adolygiad dilynol o 'Ar Goll ar ôl Gofal' yn 2013, ac mae i'w trwy [ddilyn y linc yma](#); mae'r adroddiad hwn yn manylu ar y cynnydd mae awdurdodau lleol a phartneriaid eraill wedi'i wneud i ymdrin â'r gwelliannau gwasanaeth hynny. Rydw i wedi cael fy nghalonogi gan ymrwymiad amrywiaeth o sefydliadau i wella cyfleoedd plant sy'n derbyn gofal i gyflawni eu potensial. Fodd bynnag, mae'n eglur o bersbectif y plant a'r bobl ifanc a ddaeth i'r digwyddiadau nad yw'r holl faterion a nodwyd yn 'Ar Goll ar ôl Gofal' wedi cael eu datrys.

Rydyn ni'n ymroddedig i weithio gyda Llywodraeth Cymru, Llywodraeth Leol a'r Sector Plant yng nghyswllt canfyddiadau arolygiadau thematig diweddar yr AGGCC o wasanaethau plant sy'n derbyn gofal, er mwyn sicrhau bod modd rhoi sylw priodol i'r materion mae plant a phobl ifanc wedi'u codi fel rhan o'r rhaglen waith honno.

'Fy Nghynllunyydd'

Byddwn ni hefyd yn diweddarau adnodd 'Fy Nghynllunyydd' ar sail adborth y bobl ifanc, yn dilyn y newidiadau sylweddol i'r gyfraith a pholisi sy'n berthnasol i blant sy'n derbyn gofal a rhai sy'n gadael gofal ledled Cymru.

Mae yna hefyd welliannau mae'n rhaid i ni fel swyddfa eu gwneud i sicrhau ei bod hi'n haws i blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal sydd â hawl i wasanaethau gofal yn y dyfodol gysylltu â ni. Y ffordd fwyaf uniongyrchol i blant a phobl ifanc gael cefnogaeth gan fy swyddfa yw trwy'r gwasanaeth [Cyngor a Chymorth](#). Mae'r gwasanaeth Cyngor a Chymorth yn ffynhonnell ddi-dâl, gyfrinachol o help a chefnogaeth i blant a phobl ifanc. Mae'r gwasanaeth yn darparu cyngor a chefnogaeth i blant, pobl ifanc, oedolion a gweithwyr proffesiynol eraill. Mae fy Swyddogion Ymchwiliadau a Chyngor yn gallu cyfryngu rhwng unigolion a darparwyr gwasanaeth er mwyn diogelu a hyrwyddo hawliau a lles plant a phobl ifanc. Mae gan ein swyddogion y gallu i edrych ar achosion unigol, neu gallan nhw gyfeirio ymlaen at sefydliad arall sydd yn y sefyllfa orau i helpu.


Mae'r adborth a gawson ni gan y bobl ifanc yn y digwyddiadau wedi sbarduno strategaeth gyfathrebu sydd wedi'i thargedu ar gyfer y gwasanaeth cyngor a chefnogaeth. Bydd swyddogion yn cwrdd â thimau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol, fel bod cyfle i esbonio rôl a swyddogaeth y gwasanaeth cyngor a chymorth a swyddogaethau eraill swyddfa'r Comisiynydd. Hyd yma mae'r cyfarfodydd hyn wedi sicrhau gwell dealltwriaeth a mwy o barodrwydd ymhlith y timau gwasanaethau cymdeithasol i weithio gyda ni i ddatrys materion y mae plant a phobl ifanc wedi dod â nhw i'r swyddfa.

Y digwyddiadau

O'm rhan i, bydda i'n argymhell i Gomisiynydd Plant nesaf Cymru eu bod yn parhau i drefnu fforwm flynyddol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a rhai sy'n gadael gofal, o bob rhan o Gymru, er mwyn clywed yn uniongyrchol gan blant a phobl ifanc am y materion maen nhw eisiau i'r Comisiynydd, y Llywodraeth a rhieni corfforaethol eu deall.

Mae'r swyddfa hon wedi ymrwymo i barhau i weithio'n agos gyda Fforwm Gadael Gofal Cymru-Gyfan a grwpiau eraill perthnasol o weithwyr proffesiynol i helpu i sicrhau bod hawliau plant a phobl ifanc yn y system ofal yn cael eu cydnabod a'u gwireddu.

Allwn ni ddim bod yn hunanfodlon ym maes gwasanaethau a chefnogaeth i blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal. Mae dyled arnon ni i helpu i sicrhau hawliau'r bobl ifanc sy'n symud ymlaen i wasanaethau gofal yn y dyfodol, fel eu bod nhw'n gallu gwireddu eu breuddwydion a'u dyheadau.

A handwritten signature in black ink that reads "Keith Towler". The signature is written in a cursive, flowing style. Below the signature, there is a long, horizontal, slightly wavy line that extends across the width of the signature.

Keith Towler
Comisiynydd Plant Cymru
2008-2015